CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 1987 (Cy. 138 )

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Estyn Addysg Gyrfaoedd) (Cymru) 2001

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru, yn gwneud darpariaeth ar gyfer estyn y gofyniad i ddarparu rhaglen addysg gyrfaoedd i gynnwys disgyblion sydd dros oedran ysgol gorfodol a myfyrwyr rhwng 16 a 19 oed sy'n mynychu sefydliadau o fewn y sector addysg bellach.

Mae Rheoliad 2 yn estyn y gofyniad yn adran 43 o Ddeddf Addysg 1997 i ddarparu rhaglen addysg gyrfaoedd i gwmpasu disgyblion rhwng 14 a 19 oed, yn hytrach na 14-16 oed yn ôl gofyniad presennol adran 43.

Mae Rheoliad 3 yn gosod gofyniad hollol newydd ar gyfer darparu rhaglen addysg gyrfaoedd i fyfyrwyr 16-19 oed sy'n mynychu sefydliadau addysg bellach.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 1987 (W. 138 )

# EDUCATION, WALES

## The Education (Extension of Careers Education) (Wales) Regulations 2001

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations which apply to Wales make provision for extending the requirement to provide a programme of careers education to include pupils who are over compulsory school age and students aged between 16 and 19 attending institutions within the further education sector.

Regulation 2 extends the requirement in section 43 of the Education Act 1997 to provide a programme of careers education to cover pupils aged between 14 and 19, rather than 14-16 as section 43 currently requires.

Regulation 3 imposes an entirely new requirement for students aged 16-19 attending further education institutions to be provided with a programme of careers education.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 1987 (Cy. 138 )

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Estyn Addysg Gyrfaoedd) (Cymru) 2001

*Wedi'u gwneud* *15 Mai 2001*

*Yn dod i rym* *1 Awst 2001*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 46(1) a (3) a 54(3) a (4) o Ddeddf Addysg 1997(**a**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**b**):

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.** -(1)Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Estyn Addysg Gyrfaoedd) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Awst 2001.

(2) Maent yn gymwys i Gymru yn unig.

**Estyn darpariaethau adran 43(5) o Ddeddf Addysg 1997**

**2.** Bydd adrannau 43 a 44 o Ddeddf Addysg 1997 yn cael effaith fel petai'r cyfnod canlynol wedi'i roi yn lle'r cyfnod a bennir yn adran 43(5) fel y rhan berthnasol o addysg disgybl, sef y cyfnod -

(a) sy'n dechrau yr un pryd â'r flwyddyn ysgol y mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn ei ddosbarth yn cyrraedd 14 oed; a

(b) sy'n gorffen pan ddaw'r flwyddyn ysgol y mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn ei ddosbarth yn cyrraedd 19 oed i ben.

**Y gofyniad i ddarparu addysg gyrfaoedd mewn sefydliadau yn y sector addysg bellach**

**3.** -(1)Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â phersonau sy'n mynychu sefydliadau o

(a) 1997 p.44. I gael ystyr "regulations" gweler adran 56(1), ac i gael ystyr "specified" gweler adran 46(5).

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 1987 (W. 138 )

# EDUCATION, WALES

## The Education (Extension of Careers Education) (Wales) Regulations 2001

*Made* *15th May 2001*

*Coming into force* *1st August 2001*

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 46(1) and (3) and 54(3) and (4) of the Education Act 1997(**a**) and now vested in the National Assembly for Wales(**b**):

**Citation, commencement and application**

**1.** -(1)These Regulations are called the Education (Extension of Careers Education) (Wales) Regulations 2001 and shall come into force on 1st August 2001.

(2) They apply only to Wales.

**Extension of provisions of section 43(5) of the Education Act 1997**

**2.** Sections 43 and 44 of the Education Act 1997 shall have effect as if there were substituted for the period specified in section 43(5) as the relevant phase of a pupil's education the period -

(a) beginning at the same time as the school year in which the majority of pupils in his class attain the age of 14; and

(b) ending with the expiry of the school year in which the majority of pupils in his class attain the age of 19.

**Requirement to provide careers education at institutions in the further education sector**

**3.** -(1)This regulation applies in relation to persons attending institutions within the further

(a) 1997 c.44. For the meaning of "regulations" see section 56(1), and for the meaning of "specified" see section 46(5).

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

fewn y sector addysg bellach (p'un a ydynt yn eu mynychu'n amser llawn neu'n rhan amser) ac sydd wedi cyrraedd 16 oed ond nad ydynt wedi cyrraedd 20 oed.

(2) Rhaid i gyrff llywodraethu'r sefydliadau hynny a phrifathrawon neu benaethiaid eraill y sefydliadau hynny sicrhau bod rhaglen addysg gyrfaoedd yn cael ei darparu ar gyfer y personau hynny y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddynt.

(3) Yn y rheoliad hwn -

ystyr 'addysg gyrfaoedd' (*'careers education'*) yw addysg sydd wedi'i llunio i baratoi personau ar gyfer gwneud penderfyniadau am eu gyrfaoedd a'u helpu i weithredu'r penderfyniadau hynny;

mae i 'sefydliadau o fewn y sector addysg bellach' yr un ystyr ag *'institutions within the further education sector'* yn adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**a**);

mae 'gyrfaoedd' (*'careers'*) yn cynnwys ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant, cyflogaeth neu alwedigaeth neu unrhyw gwrs addysg.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**b**)

15 Mai 2001

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

education sector (whether attending full-time or part-time) who have attained the age of 16 but who have not attained the age of 20.

(2) The governing bodies of those institutions and the principals or other heads of those institutions must secure that a programme of careers education is provided for those persons to whom this regulation applies.

(3) In this regulation -

'institutions within the further education sector' (*'sefydliadau o fewn y setor addysg bellach'*) has the same meaning as in section 91(3) of the Further and Higher Education Act 1992(**a**);

'careers' (*'gyrfaoedd'*) includes the undertaking of any training, employment or occupation or any course of education;

'careers education' *('addysg gyrfaoedd'*) means education designed to prepare persons for taking decisions about their careers and to help them implement such decisions.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**b**)

15th May 2001

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly for Wales

(a) 1992 p.13.
(b) 1998 p.38.

(a) 1992 c.13.
(b) 1998 c.38.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 1987 (Cy. 138 )

## ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Estyn Addysg Gyrfaoedd) (Cymru) 2001

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 1987 (W. 138 )

## EDUCATION, WALES

The Education (Extension of Careers Education) (Wales) Regulations 2001

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090274-2

£1.75

W/299/07/01 ON

9 780110 902746